
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	03.02.21
Pwnc / Subject:	Perfformiad a llywodraethu awdurdodau lleol: arweiniad drafft

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Mae Estyn yn croesawu'r arweiniad hwn.

Trwy ein harolygiadau, rydym yn aml wedi amlygu pryderon am ansawdd hunanwerthuso mewn perthynas â gwasanaethau addysg llywodraeth leol, a pha mor dda y caiff ei ddefnyddio i gefnogi gwelliant. Un o'r argymhellion mwyaf cyffredin yn dilyn arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol yw y dylai'r awdurdod lleol wella ansawdd ac effeithiolrwydd ei hunanwerthuso.

Bydd angen i ni weithio'n agos ag arolygiaethau, rheoleiddwyr ac archwilwyr eraill, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod ein gwaith cyfun ag awdurdodau lleol yn ategol, yn gefnogol ac yn effeithlon mewn perthynas â'r dyletswyddau a gwmpesir gan yr arweiniad hwn.

Rydym yn cytuno'n fras â'r arweiniad. Rydym wedi amlygu ychydig o bwyntiau y gellid eu cryfhau yn yr arweiniad, yn ein barn ni. Yn benodol, byddai'n fuddiol:

- Cryfhau'r ffocws ar wella deilliannau i bobl leol o dan gyfrifoldebau'r Prif Gyngor
- Cadarnhau'n eglur y dylid cynnwys plant a phobl ifanc mewn unrhyw ymgynghoriad gyda phobl leol
- Sicrhau bod arolygiaethau, archwilwyr a rheoleiddwyr yn cael eu hysbysu cyn dyddiad panel asesu

Cwestiynau'r ymgynghoriad

C1. A yw'r arweiniad drafft yn ei gwneud yn glir beth sy'n ddisgwyliedig o brif gynghorau, fel yr amlinellir yn narpariaethau Rhan 6 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mewn ffordd y gall prif gynghorau ddeall?

Os na, pam ddim?

Ydy

C2. A yw Pennod 2 yr arweiniad yn amlinellu'r gofynion perfformiad a'r ddyletswydd i adolygu perfformiad yn gyson yn ddigon clir?

Os na, beth fydddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei newid?

Ydy. Mae'n gwneud synnwyr peidio ag ailadrodd y manylion yn yr arweiniad hwn.

C3. A yw Pennod 2 yr arweiniad yn esbonio sut gallai cyngor fodloni'r gofyniad i gynnal hunanasesiad er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau?

Os na, beth fyddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei newid?

Ydy.

Mae'r egwyddorion sy'n sail i ddulliau hunanasesu cynghorau yn fuddiol (2.10-2.13). Gellid cryfhau hyn trwy bwysleisio'n eglur y 'diwylliannau' a'r 'ymddygiadau' sy'n cefnogi hunanasesu effeithiol, ac o bosibl amlygu dulliau di-fudd.

Mae'r arweiniad ar y gofyniad i lunio adroddiad hunanasesu blynyddol yn fuddiol hefyd, ac mae hyn yn hynod bwysig i sicrhau nad yr adroddiad sy'n ysgogi'r gweithgareddau hunanasesu. Mae'n bwysig nad yw'r gofynion yn annog diwydiant o ysgrifennu adroddiadau unochrog neu ddi-fudd, fel sydd wedi digwydd pan fydd rhai ysgolion yn paratoi eu gwerthusiadau blynyddol ar gyfer cynulleidfaoedd allanol.

Ym mharagraff 2.15 (ffynonellau i gefnogi hunanasesu), gallai helpu petai mwy o amlygrwydd yn cael ei roi i hunanwerthusiadau mewnol, er enghraifft ar lefel gwasanaeth. Mae'n hanfodol annog diwylliant hunanwerthuso y mae pob un o'r staff yn cyfrannu ato, ac yn ei ddeall. Mae'n hanfodol fod rheolwyr ar bob lefel yn gwerthfawrogi hunanwerthuso mewnol yn hytrach na dibynnu ar bobl eraill yn allanol i ddarparu adroddiadau sy'n arwain eu hunanasesiad. Cyn rhestru'r enghreifftiau amrywiol o ffynonellau allanol defnyddiol, gellid cryfhau paragraff 2.15 trwy bwysleisio pwysigrwydd a gwerth hunanwerthuso mewnol fel prif ffynhonnell dystiolaeth i gefnogi hunanwelliant ar bob lefel.

Yn fwy cyffredinol ym mhennod 2, mae un cyfeiriad bach yn unig at weithio rhanbarthol (paragraff 2.39 ar bwy y dylid ei gynnwys). Byddai'n fuddiol cryfhau cyfeiriadau at weithio rhanbarthol i sicrhau bod yr awdurdod lleol yn rhoi sylw cyfartal i wasanaethau rhanbarthol a gwasanaethau mewnol, a bod yn eglur am sut y dylid ystyried gwaith unrhyw Gyd-bwyllgorau Corfforaethol yn yr hunanasesiad.

Gellid cryfhau paragraff 2.18 fel ei bod yn glir fod 'pobl leol' yn cynnwys plant. Byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at Erthygl 12 CCUHP, sy'n gofyn am ystyried barn plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

C4. A yw Pennod 3 yr arweiniad yn gwneud y gofynion lleiaf i brif gynghorau drefnu ac ymateb i asesiad perfformiad panel yn glir, yn ogystal â darparu hyblygrwydd digonol i bob cyngor bennu ei ddull ei hun?

Os na, beth fyddech chi'n ei ychwanegu neu'n newid?

Ydy, ar y cyfan.

Byddai'n fuddiol pe bai'n ofynnol i gynghorau hysbysu arolygiaethau, archwilwyr a rheoleiddwyr am y dyddiad y maent yn ei ddewis ar gyfer eu hasesiad panel o leiaf 6 mis ymlaen llaw. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried hyn wrth drefnu arolygiadau o wasanaethau addysg llywodraeth leol.

Yn ogystal â'r ymgynghoreion statudol, byddai'n fuddiol i'r panel geisio barn arolygiaethau, archwilwyr a rheoleiddwyr yn ogystal ag ombwdsmyrn a chomisiynwyr lle mae'n berthnasol iddynt wneud hynny.

Bydd cryn her i osod dull y panel ar y lefel gywir. Mae risg wirioneddol y gallai'r broses fod yn ymarfer lle mae llawer yn y fantol, gan ysgogi ymddygiadau di-fudd. Mae'r arweiniad yn pwysleisio natur gefnogol y dull, ac mae hyn yn fuddiol. Hefyd, gallai fod yn fuddiol amlygu ymddygiadau effeithiol paneli adolygu cymheiriaid mewn cyd-destunau eraill.

C5. Mae Pennod 4 yn amlinellu pwerau Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal arolygiad arbennig, a dyletswyddau prif gynghorau a Gweinidogion Cymru i ymateb i unrhyw argymhellion.

Mae Pennod 5 yn disgrifio'r pwerau a'r dyletswyddau i Weinidogion Cymru a chynghorau mewn perthynas â chefnogi a chynorthwyo â gwella perfformiad; a phwerau ar gyfer ymyrraeth gan Weinidogion Cymru.

A yw Penodau 4 a 5 yn disgrifio ac yn esbonio'r pwerau hyn yn ddigonol?

Os na, beth fydddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei newid?

Mae Penodau 4 a 5 yn disgrifio ac yn esbonio'r pwerau hyn yn ddigonol. Mae risg y gallai natur gosbol yr arolygiadau arbennig gynyddu pwysigrwydd asesiadau perfformiad y panel, ac ysgogi ymddygiadau di-fudd. Byddai'n fuddiol pwysleisio y byddai'r arolygiadau arbennig yn helpu nodi'r rhwystrau rhag gwneud cynnydd a'r adnoddau ychwanegol y gellid trefnu eu bod ar gael i gefnogi'r awdurdodau lleol hyn yn y tymor byr.

C6. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r arweiniad yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau negyddol, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Dylai'r arweiniad gefnogi hyrwyddo'r Gymraeg a'i statws cyfartal â'r Saesneg, oherwydd dylai perfformiad yr awdurdod lleol yn y maes hwn ymddangos yn ei hunanwerthusiad ei hun, a gallai fod o ddiddordeb i banel asesu.

C7. Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid ffurfio neu newid yr arweiniad er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Ni awgrymir unrhyw newidiadau.

C8. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol ar yr arweiniad drafft. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i fynegi'ch barn.

Gallai fod yn fuddiol ystyried sut gellir cryfhau'r arweiniad i sicrhau bod awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer pobl ifanc, yn hytrach na gofynion perfformiad yn unig. Er enghraifft, byddai'n fuddiol, o dan gyfrifoldebau'r Prif Gyngor ar dudalennau 10 ac 11, aralleirio'r pwynt bwled cyntaf i ddweud: *"Cynnal hunanasesiadau trylwyr, ac adrodd ar y graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad er mwyn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ei gymunedau lleol"*

Rydym yn gweithio'n agos ag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru i gydlynu ein dulliau o ran gwaith arolygu mewn awdurdodau lleol unigol, a rhannu gwybodaeth am berfformiad. Mae hon yn ymdrech ar y cyd, a dylid rhannu'r cyfrifoldeb, yn hytrach na chael Archwilio Cymru i gydlynu ein gwaith, fel yr awgrymir o dan eu cyfrifoldebau ar dudalen 11.